Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# "Cysylltu a Ffynnu"

## Eglurhad Ychwanegol

Hydref 2020

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## 1. Sut olwg sydd ar gynnig da?

Byddai angen i gynnig da ddangos y 4 pwynt yma:

- **Blaenoriaeth:** A yw eich cynnig yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol ein Cynllun Corfforaethol: Er Budd i Bawb
- **Potensial:** A yw eich cynnig yn dangos effaith gref ar; gynulleidfaoedd, cyfranogwyr, ecoleg y sector, yr amgylchedd ac ati
- **Lle**: A yw eich cynnig yn digwydd mewn cymunedau neu leoedd anodd eu cyrraedd
- Partneriaeth: A yw eich cynnig yn adlewyrchu partneriaeth gydlynol? Beth yw'r amcanion clir a rennir? A yw'r bartneriaeth hon yn dangos potensial ac agwedd arloesol

## 2. A oes angen i chi fynychu'r holl Sesiynnau Briffio Rhithwir?

Na, nid oes unrhyw ddisgwyliad i chi fynychu unrhyw un o'r cyfarfodydd, mae'n nhw'n ddewisol. Mae'r cyfarfodydd wedi'u cynllunio i ddarparu cefnogaeth ychwanegol a phorth ar gyfer cwestiynau ac atebion a allai fod gennych, byddai mynychu un sesiwn yn ddigonol.

## 3. A oes angen i chi fynychu'r gweithdy Cydweithio ar Waith?

Mae mynychu yn ddewisol, ond byddem yn argymell eich bod yn manteisio ar y cyfle.

## 4. A allwch egluro'r hyn y byddwch yn ei gefnogi o dan Gostau Gofal Plant?

Gallwn hefyd gyfrannu at ariannu costau gofal plant lle mae hyn yn angenrheidiol, i ganiatáu gweithwyr llawrydd unigol i gymryd rhan yn y prosiect.

Mewn rhai amgylchiadau gallwn gefnogi costau gofal plant rhesymol - yn enwedig lle nad yw cyfranogwyr yn debygol o allu fforddio presenoldeb heb y gefnogaeth hon - neu ar gyfer gweithgaredd sy'n galluogi pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Esboniwch pam mae angen y gefnogaeth hon arnoch.

## 5. Fel gweithiwr llawrydd, pam na allaf fod yn arweinydd ar y prosiect?

Fel gweithiwr llawrydd gallwch fod yn arweinydd ar y prosiect, fodd bynnag, am resymau rheolaeth ariannol gofynnwn i sefydliad fod yn 'westeiwr' y prosiect.

6. Fel gweithiwr llawrydd sut alla i sicrhau bod gen i gydraddoldeb yn y prosiect?

Disgwyliwn i bob grwp cydweithredol weithio o gytundeb partneriaeth, bydd angen i'r cytundeb hwn ddangos rolau a chyfrifoldebau pob grwp yn glir. Dylai eich cyllideb adlewyrchu'r holl ffioedd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ac ati.

7. Nid wyf yn barod i gyflwyno cais nawr, a fydd cyfleoedd eraill?

Nid oes angen i chi ruthro i wneud cais i ddyddiad cau y gronfa hwn, y dyddiad cychwyn nesaf ar gyfer y gronfa yw 27ain Ionawr 2021. Bydd dyddiadau cau pellach wedi'u hamserlennu trwy gydol 2021/22.

8. Nid wyf wedi gweithio gyda fy mhartneriaid ers amser maith, a fydd hyn yn rhwystro fy nghais?

Na, ym mhob cais rydym yn edrych am botensial y bartneriaeth, bydd angen i chi nodi'n glir eich amcanion a rennir, a'r hyn sydd wedi dod â chi at eich gilydd. Byddem yn disgwyl i berthnasoedd dyfu, a byddwn yn gweithio gyda chi i gefnogi'ch cais.

9. Fel sefydliad, a allaf arwain (neu fod yn westeiwr) ar fwy nag un cais?

Na, yn anffodus, dim ond un cynnig / cais gallwch arwain, fodd bynnag, gallwch fod yn rhan o nifer o gynigion.

10. Ydy’r ffrydiau loteri arferol yn ail agor fis Ionawr ac oes modd ymgeisio o’r ffynonellau yma yn ychwanegol i’r gronfa newydd?

Byddwn ar agor ar gyfer y loteri ar ddechrau 2021 - rydym yn diffinio ein rhaglenni, ni fyddwn yn eich atal rhag gwneud cais os dewch chi i mewn ar gyfer Cysylltu & Ffynnu.

11. Oes modd gwneud cais mwy nag unwaith o fewn dwy flynedd e.e. 100k yn 2020-2021 a 100k arall y flwyddyn ddilynol?

Ar hyn o bryd mae rheolau yn caniatáu i westeiwr gael un prosiect byw, byddem yn disgwyl i grant gwmpasu bywyd y prosiect, ond gallai hyn newid yn y dyfodol. Gallwch wneud cais am gronfeydd datblygu ac yna gwneud cais am gronfeydd prosiect o fewn yr un flwyddyn.

12. Cymhwyster: Mae gwall ar dudalen 15 o'r canllawiau.

Gall sefydliadau wneud cais i ni os ydyn nhw wedi'u lleoli yng Nghymru, ac wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol fel ….. dylai ddweud y gall sefydliadau wneud cais i ni os ydyn nhw wedi'u lleoli yng Nghymru, y DU neu'r Undeb Ewropeaidd ac wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol fel……

13. A ellir dosbarthu gwahanol feysydd/ adrannau gwasanaeth o fewn awdurdodau lleol / prifysgolion fel gwahanol bartneriaid mewn ceisiadau? A yw'r un peth yn berthnasol o ran bod sefydliad yn cynnal gwahanol geisiadau?

Byddem yn diffinio gwahanol feysydd / adrannau gwasanaeth o fewn awdurdod lleol neu brifysgol fel gwahanol bartneriaid at ddibenion y gronfa hon. Mae hyn yn golygu y gallai gwahanol feysydd / adrannau gwasanaeth gynnal gwahanol geisiadau neu fod yn bartneriaid mewn gwahanol geisiadau i ni. Fodd bynnag, byddwn dal i ddisgwyl gweld unigolion fel rhan o unrhyw gais cydweithredol ac yn ddelfrydol hoffwn weld partner allanol ychwanegol i'r awdurdod / prifysgol lleol i gefnogi potensial y cynnig.